Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Pecyn Cymorth Cymunedol
Sir Gaerfyrddin

Ymgynghoriadau Cymunedol

Cynllunio Eich Gweithgaredd

Bydd angen i chi nodi brîff clir er mwyn sicrhau bod gennych y wybodaeth, yr adnoddau, yr amser a'r dull angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Dylai brîff gynnwys:

Cefndir
- Beth ydych chi am ei gyflawni?

Pwrpas / Amcanion Allweddol
- Pam y mae angen i chi ymgynghori â'r cymunedau / defnyddwyr gwasanaeth, a'u cynnwys?
- A ydych chi am wella'r ffordd o gyflenwi gwasanaeth, adnabod bylchau yn y gwasanaeth, nodi anghenion y cymunedau neu gynnwys y gymuned yn y broses o wneud penderfyniadau?
- A oes ymarfer tebyg wedi'i gynnal eisoes ac a allwch chi ddefnyddio'r canlyniadau hyn er mwyn osgoi dyblygu?

Cynulleidfa Darged
- Pwy ydych chi'n ceisio ymgynghori â nhw / eu cynnwys?

Dulliau
- Sut y byddwch chi'n ymgynghori â nhw / eu cynnwys?

Cynllun
- Graddfeydd amser (gan gynnwys aros am ymatebion), costau, (sgiliau, ymrwymiad, arian, amser, staff ac adnoddau eraill), a phwy fydd yn gyfrifol?
- Mae amseru yn allweddol – mae ymgynghori yn aml yn cymryd yn hirach o lawer nag a ddisgwyliwyd.

Canlyniadau ac Adborth
- Sut yr ydych chi'n bwriadu dadansoddi eich canlyniadau, a sut y bydd y canlyniadau yn cael effaith?
- Sut y bydd y canlyniadau yn cael eu bwydo yn ôl i'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw? A yw'r deilliannau yn glir o'r canlyniadau ac a yw'r cyfranogwyr wedi'u hysbysu o'r rhain?

Gwerthuso / Monitro
- Sut y byddwch chi'n gwybod a yw wedi bod yn llwyddiannus?

Bydd y rhestr wirio ymgynghoriad cymunedol ganlynol yn helpu i sicrhau bod unrhyw ymarfer ymgynghori yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, a dylid ei defnyddio ymlaen llaw i ystyried yr hyn fydd ei angen.

Ymgynghoriad Cymunedol Rhestr Wirio

Cefndir.	
Pwrpas yr Ymgynghoriad.	
A oes unrhyw Ddata Presennol ar gael?	
Cynulleidfa Darged.	
Methodoleg – sut y bydd yr ymarfer yn cael ei gynnal?	
Dyddiadau (a Lleoliad, os yw'n berthnasol), yr Ymgynghoriad?	
Dull Sampl (os yw'n feintiol).	

Pecyn Cymorth Cymunedol
Sir Gaerfyrddin

Maint y Sampl (os yw'n feintiol).	
Adnoddau a Nodwyd ac a Ddyrannwyd.	
Ymgynghorydd Allanol (os yw'n berthnasol).	
Cyfleoedd Partneriaeth (os yw'n berthnasol).	
Dull Adborth.	
Monitro a Gwerthuso.	
Enwau'r Swyddog Arweiniol, ac aelodau allweddol eraill o'r grŵp.	

Arwyddwyd (Y Swyddog Arwain) .....

Dyddiad .....

Cynnal eich Gweithgaredd – Pam, Beth, Pryd, Sut a Gyda Phwy?

Pam?
- Mae'n hanfodol bwysig egluro pwrpas y gweithgaredd Ymgynghori Cymunedol. Dylech ddeall pam y mae angen yr ymarfer a datblygu nodau ac amcanion clir, ynghyd â graddfeydd amser ar gyfer ei gwblhau.

Beth?
- Pa lefel o Ymgynghori Cymunedol sydd ei hangen? A yw'r ymarfer yn ymwneud yn bennaf â chasglu / rhoi / rhannu gwybodaeth, ymgynghori ar gynlluniau, neu gynnwys cymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau?
- Pa weithgarwch Ymgynghori Cymunedol blaenorol a gynhaliwyd y gallwch chi ei ddefnyddio?
- Pa grwpiau yr ydych chi'n eu cynnwys? Gall cymunedau gynnwys pobl ag anghenion gwahanol, diddordebau, crefyddau, tarddiad ethnig, safbwyntiau cyffredin ayyb. Lle bo'n bosibl, dylai fod cyfraniad cyfartal gan holl aelodau'r gymuned yn y gweithgaredd Ymgynghori Cymunedol.

Pryd?
- Mae pobl yn llai tebygol o gyfrannu os ydynt yn teimlo bod y penderfyniadau wedi'u gwneud eisoes, a bod eu cyfraniad o'r pwys lleiaf. Y cynharach y mae'r cyfraniad, mwyaf tebygol ydyw o fod yn weithgaredd Ymgynghori Cymunedol llwyddiannus.

Sut?
- Sut y bydd y wybodaeth o'r gweithgaredd Ymgynghori Cymunedol yn cael ei defnyddio – byddwch yn glir o'r dechrau ynglŷn â'r hyn yr ydych am ei gael o hyn!

Gyda phwy?
- A ydych chi wedi clustnodi'r gynulleidfa darged? Bydd y rhestr o bwy i'w cynnwys yn amrywio yn ôl y gwasanaeth.
- A oes unrhyw faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y mae angen eu hystyried?
- Beth am grwpiau anodd eu cyrraedd? Gellir eu diffinio fel grwpiau sy'n profi rhwystrau fel tlodi, iaith, anabledd, trafnidiaeth a gofal plant ayyb.
- A oes cymunedau buddiant wedi'u hadnabod e.e. Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Pobl Anabl, Pobl Hŷn, Plant a Phobl Ifanc ayyb.?

Awgrymiadau defnyddiol wrth gynnwys cymunedau buddiant

- Pwy yw eich cymuned? Faint o gyfraniad sydd ganddynt a pha mor hygyrch yw eich dulliau cynnwys.
- Cysylltwch â grwpiau Cymunedau Buddiant e.e. grwpiau Pobl Hŷn a Lleiafrifoedd Ethnig, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Defnyddiwch amrywiaeth o leoliadau yn y gymuned ar gyfer cyfarfodydd gyda chymunedau lleol a sicrhewch eu bod yn hygyrch i bobl ag anableddau.
- Ystyriwch sut y gall amser digwyddiadau effeithio ar bobl leol, fel oriau ysgol, amser prydau, trafnidiaeth gyhoeddus ayyb.
- Cofiwch ddarparu ar gyfer pobl nad ydynt yn darllen neu'n ysgrifennu o bosibl, drwy ddefnyddio cymhorthion gweledol, neu gynnig ysgrifennu sylwadau pobl.

Nodweddion Allweddol Ymgynghoriad Cymunedol

1. Mae angen digon o amser arweiniol i ymgynghori â phobl neu'u cynnwys. Weithiau, roddir terfynau amser tynn i gynnwys y gymuned, sy'n gallu effeithio ar ansawdd yr ymgynghoriad cymunedol yn y pen draw.

2. Dylai'r gymuned deimlo bod ganddynt berchenogaeth o unrhyw weithgaredd Ymgynghori Cymunedol gan gynnwys teimlad o gyfranogiad lle bo'n bosibl.

3. Mae'n bwysig meithrin gallu a sgiliau'r cymunedau sy'n cyfrannu drwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau i'w grymuso i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

4. Mae angen cyfathrebu â'r gymuned mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol, tra'n sicrhau bod eglurder yn cael ei gynnal.

5. Y gweithgareddau Ymgynghori Cymunedol mwyaf llwyddiannus fel arfer yw'r rheini sy'n cynnwys pobl mewn ffyrdd ymarferol neu uniongyrchol, ac sy'n dangos tystiolaeth glir o sut y gallai newidiadau gael effaith uniongyrchol ar eu bywydau.

6. Mae angen bod yn 'onest ac yn realistig' ynglŷn â phwrpas a ffiniau'r gweithgareddau Ymgynghori

Pecyn Cymorth Cymunedol
Sir Gaerfyrddin

Cymunedol sy'n cael eu cynnal a pheidio â chodi disgwyliadau, na ellir eu diwallu.

7. Nid oes yn rhaid i adborth fod ar ffurf adroddiad bob amser. Gall posteri, taflenni, radio lleol a dulliau cyfathrebu eraill roi'r adborth sydd ei angen ar bobl i ddeall sut y mae eu cyfraniad wedi dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, ac annog eu diddordeb a'u cefnogaeth barhaol.

Monitro a Gwerthuso

- Mae angen i bob gweithgaredd Ymgynghori Cymunedol sicrhau bod systemau yn eu lle i fonitro a gwerthuso ei brosesau a'i effeithiolrwydd.
- Mae hyn yn eich helpu i ddeall a yw'r gweithgaredd Ymgynghori Cymunedol yn gweithio fel ffordd o ddarparu mecanwaith sy'n helpu'r aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Mae hyn yn helpu i wella gweithgarwch Ymgynghori Cymunedol drwy edrych ar eich profiadau gorau a gwaethaf!
- Dylai'r broses o werthuso'r Ymgynghori Cymunedol fod yn agored ac yn onest – yn rhywbeth i ddysgu ohono ac i rannu arfer gorau.

Beth y dylid ei werthuso?

- A oedd yr ymarfer wedi cwrdd â'i amcanion? Os na, pam?
- A oedd yr amcanion yn glir ac yn berthnasol i'r ymgynghoriad?
- A oeddent yn glir i bawb a gyfrannodd? A gawsoch chi safbwyntiau gan y rheini yr oeddech chi eu heisiau?
- A oedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo bod yr ymarfer yn werth chweil?
- A oedd y dulliau yn iawn ar gyfer eich amcanion? A oedd un dull wedi gweithio'n well nag un arall, ac os felly, pam?
- A gawsoch chi'r gyfradd ymateb / sampl cynrychiadol / gwybodaeth ofynnol?
- A oedd yr amserlen yn glir ac a lynwyd wrthi, ac os na, pam? A ganiatawyd digon o amser ar gyfer ymatebion?
- A oedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd yn hawdd mynd ati?
  - Yn berthnasol i'r ymgynghoriad?
  - Wedi'i chynhyrchu mewn Cymraeg a Saesneg clir ac yn hawdd ei deall?
  - Ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill?
- A oedd y gyllideb yn ddigonol? A oedd unrhyw gostau annisgwyl?
- A oedd unrhyw orwariant / tanwariant?
- A gawsoch chi safbwyntiau y gallech chi eu defnyddio? Os felly, sut y cawsant eu defnyddio?
- Sut y mae eich gwasanaeth / polisi wedi newid o ganlyniad i'r ymgynghoriad?
- A yw'r ymgynghoriad wedi newid y berthynas rhyngoch chi, eich defnyddwyr ac eraill?
- A roddwyd adborth i'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw?

Pwysigrwydd Rhoi Adborth i'r Cyfranogwyr

- Mae rhoi adborth i'r cyfranogwyr sydd wedi cyfrannu at y gweithgaredd ymgynghori yn rhan o weithgarwch Ymgynghori Cymunedol effeithiol. Mae hefyd yn ddyletswydd arnoch chi i ddweud wrth y rhai a gyfrannodd beth yw ein casgliadau a beth yr ydym yn bwriadu ei wneud â'r wybodaeth – mae adborth yn rhan bwysig o'r broses.
- Mae'n arfer da rhoi gwybod i'r cyfranogwyr sut y mae eu barn a'u safbwyntiau wedi'u dwyn ymlaen ac os nad ydynt, pam nad ydynt. Mae Ymgynghori a Chynnwys y Gymuned yn broses ddwy ffordd ac mae rhoi adborth yn elfen hanfodol o gynnal hyder y cyfranogwyr yn y broses hon.
- Dylai'r holl ymatebwyr deimlo bod eu cyfraniad wedi'i werthfawrogi oherwydd gallai hynny eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgarwch Ymgynghori Cymunedol yn y dyfodol.

Ymwadiad

Lluniwyd y Nodyn Cyngor hwn yn rhan o Becyn Cymorth Cymunedol Sir Gaerfyrddin i helpu grwpiau cymunedol i wneud cais am gyllid. Fodd bynnag, nid yw'n ganllaw terfynol ac argymhellir eich bod yn ceisio rhagor o gyngor yn unol â'r amgylchiadau.